

Codau QR yn y Cyfnod Sylfaen

Sut y mae plant Blwyddyn 1 yn creu, yn cydweithio, yn storio ac yn rhannu e-lyfrau.

Gallwch weld adnodd buddugol y llynedd yma



Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

- Dewis y feddalwedd addas i gwblhau'r dasg er mwyn defnyddio testun, delweddau, animeiddio â sain a fideo.
- Cydweithio â phartner ar ddarn o waith digidol.



AWGRYM GWYCH!

Gall y plant ymchwilio i'r

pwnc drwy ddefnyddio Encyclopaedia Britannica Gallwch ddod o hyd i luniau yn ddiogel ar Image Quest.

Cafod y sesiwn hon ei chyflwyno gan
Christopher Jones
All Saints Church in Wales School
JonesC3001@hwbmail.net

Rhyngweithio a chydweithio

Cefndir

Y llynedd, enillodd Christopher Jones y Wobr Dysgu Digidol Cenedlaethol am yr Adnodd Gymunedol Orau. Roedd ei syniad yn un syml, ond yn effeithiol iawn o ran dechrau dod ag elfen o gymhwysedd ddigidol i plant y Cyfnod Sylfaen. Roedd yn ymwneud â defnyddio codau QR wrth chwilio am Minibeasts. Ers hynny, er mwyn dechrau rhoi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith yn ei weithgareddau, mae wedi datblygu cyfres fer o weithgareddau yn seiliedig ar greu e-lyfrau rysâit.

Cyflwyniad

Y thema ar gyfer y tymor oedd 'Archfarchnadoedd'. Bu'r plant yn trafod pobi bara ac yn dysgu am sut i lunio cyfarwyddiadau.

Gweithgaredd

Ymchwil am lyfrau coginio ac e-lyfrau. Creu eu cyfarwyddiadau eu hunain a chopi drafft i wella arno.

Gweithio mewn parau, cydweithio, defnyddio Book Creator i greu e-lyfr ac arbed y ffeil gan ddefnyddio enw cyfarwydd. (Dangoswyd i blant sut i ddefnyddio'r ap Book Creator)

Gweithgaredd

Plant yn ychwanegu testun at y lluniau gan ddefnyddio Book Creator, i egluro bob cam.

Recordiwr ac ychwanegwrch botymau sain ar gyfer pob cyfarwyddyd.

Ar ôl gorffen, gall y plant lanlwytho'r e-lyfrau i J2e a (gyda rhywfaint o help!), greu codau QR gan ddefnyddio J2E5.

Yna, bydd y codau QR yn cael eu gosod yn y cornel llyfrau yn y dosbarth er mwyn i'r plant allu defnyddio'r tabled.

Gallai'r disgyblion greu cylchgronau, llyfrau, papurau newydd neu unrhyw fath o gyhoeddiad digidol drwy'r broses gydweithredol, a'u harbed a'u rhannu gan ddefnyddio codau QR.

Cafodd y gweithgaredd hwn ei ddylunio ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a'r datganiadau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod sylfaen hwnnw.



Gweithgaredd

Defnyddiwch camera ar dabled i dynnu ffotograffau o'r lluniau mae'r plant wedi'u gwneud, neu o'r camau sy'n rhan o'r broses o greu'r rysâit.

AWGRYM

GWYCH...Cadwch y rysâit yn syml!!

Gallwch weld cyfarwyddiadau llawn ar sut i greu codau QR, yn ogystal â darllynydd codau QR, ar Hwb.

